# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

Dydd Mawrth, 10 Rhagfyr 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
F. Akhtar a T.J. Jones

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.E. Williams

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd Y Sir - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP. - 10.00 yb - 12.00 yp**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE 2 MAES NOTT, CAERFYRDDIN, SA31 1PG

Torrodd cyfarfod yr Is-bwyllgor yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 10.05am ac ailymgynullodd am 10:10am yn 2 Maes Nott, Caerfyrddin, er mwyn gweld yr eiddo. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am 10:30am i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod. Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Adam Cole am drwydded safle mewn perthynas â'r safle uchod i ganiatáu'r canlynol:

- Cyflenwi Alcohol, Ffilmiau, Digwyddiadau Chwaraeon Dan Do, Cerddoriaeth Fyw, Cerddoriaeth a Recordiwyd, a Pherfformiadau Dawns - Dydd Llun a Dydd Mawrth 12:00-02:00, Dydd Mercher i Ddydd Sul 12:00-03:00.
- Oriau Agor - Dydd Llun a Dydd Mawrth 12:00–02:30, Dydd Mercher i Ddydd Sul 12:00-03:30.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – copi o'r cais.
- Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu.
- Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys.
- Atodiad D – sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd.

- Atodiad E - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel y nodwyd yn Atodiad B a hefyd at y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys (Atodiad C) a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd (Atodiad D). Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd at Amodau Trwydded Arfaethedig Drafft y cyfeiriwyd atynt uchod.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Wedyn, cyflwynwyd sylwadau i'r Is-bwyllgor gan Gyngor Tref Caerfyrddin a oedd yn mynegi pryderon ac yn gwrthwynebu caniatáu trwydded safle am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Atodiad E.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau am y dystiolaeth a gyflwynwyd. Wedyn bu i'r ymgeisydd a'i gyfreithiwr ymateb i'r pryderon a'r materion a godwyd.

Ar hynny

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y dystiolaeth a roddwyd gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwydded yr oedd yr awdurdodau cyfrifol wedi'u cynnig ac yr oedd yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt.**

**RHESYMAU:**

Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig a wnaed, yn ogystal â'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Roedd hefyd wedi rhoi ystyriaeth i'r paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r Cyfarwyddyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref, a'r rheiny a oedd wedi'u cyfeirio at ei sylw gan y partïon eraill.

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Nid oedd y safle wedi cael trwydded i werthu alcohol o'r blaen.
2. Roedd y safle mewn rhan fasnachol/preswyl cymysg o ganol y dref, yn agos at safleoedd preswyl.
3. Roedd y safle yn agos at nifer o safleoedd sydd eisoes â thrwydded.
4. Roedd y safle mewn ardal oedd wedi ei chlustnodi yn Natganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor yn fan problemus o ran troseddau ac anhrefn.
5. Nid oedd dim un o'r Awdurdodau Cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r drwydded mewn egwyddor.

6. Roedd amodau trwydded ychwanegol wedi cael eu cynnig gan yr awdurdodau cyfrifol. Roedd y rhain wedi cael eu derbyn gan yr ymgeisydd.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod pryderon y Cyngor Tref. Fodd bynnag, safbwynt yr Heddlu oedd y gallai'r amcan trwyddedu o atal troseddau ac anhrefn gael ei hyrwyddo'n ddigonol drwy gynnwys yr amodau trwydded ychwanegol y cytunwyd arnynt. Yn yr un modd, safbwynt Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd oedd y gallai'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus gael ei hyrwyddo'n ddigonol drwy gynnwys yr amodau trwydded ychwanegol y cytunwyd arnynt.

Nid oedd yr Is-bwyllgor yn credu bod ganddo ddigon o dystiolaeth ger ei fron i gyfiawnhau mynd yn groes i farn y ddau awdurdod cyfrifol.

Yn unol â hynny, roedd yr Is-bwyllgor wedi'i fodloni ei bod yn briodol hyrwyddo'r amcanion trwyddedu drwy ganiatáu'r drwydded, yn amodol ar yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt, a bod hyn yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd, gan gynnwys y rhai a godwyd gan y Cyngor Tref.

## 3. CAIS AM DRWYDDED SAFLE 12 STRYD Y GWYNT, RHYDAMAN, SA18 3DN

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod, a hysbysodd yr Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Mr Richard Stuart am drwydded safle ar gyfer 12 Stryd y Gwynt, Rhydaman SA18 3DN i ganiatáu'r canlynol:

- Cyflenwi Alcohol a Cherddoriaeth a Recordiwyd - Dydd Sul i Ddydd Iau 10:00-00:00, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn 10:00-02:00. Dydd Sul cyn Gŵyl Banc, Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Nos Galan 10:00-02:00.
- Ffilmiau, Cerddoriaeth Fyw ac Unrhyw Beth o Ddisgrifiad Tebyg – Dydd Sul i Ddydd Iau 10:00-00:00, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn 10:00-01:00. Dydd Sul cyn Gŵyl Banc, Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Nos Galan 10:00-01:00
- Lluniaeth Hwyrnos - Dydd Sul i Ddydd Iau 23:00-00:00, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn 23:00-02:00. Dydd Sul cyn Gŵyl Banc, Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Nos Galan 23:00-02:00.
- Oriau Agor - Dydd Sul i Ddydd Iau 10:00–00:30, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn 10:00-02:30. Dydd Sul cyn Gŵyl Banc, Gŵyl Banc, Noswyl Nadolig a Nos Galan 10:00-02:30

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – copi o'r cais
- Atodiad B - sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu
- Atodiad C – sylwadau Heddlu Dyfed-Powys
- Atodiad D – sylwadau Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd
- Atodiad E - sylwadau gan bobl eraill

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau fel y nodwyd yn Atodiad B a hefyd at y sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys (Atodiad C) a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd (Atodiad D). Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd at Amodau Trwydded Arfaethedig Drafft y cyfeiriwyd atynt uchod.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Ar hynny, cafodd yr Is-bwyllgor a'r ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd am ei sylwadau.

Ni chafodd yr Is-bwyllgor unrhyw sylw ar lafar gan y gwrthwynebydd gan nad oedd yn bresennol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad ailymgynullodd yr Is-bwyllgor i gyhoeddi ei benderfyniad ac ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid caniatáu'r cais yn amodol ar yr amodau trwydded y cytunwyd arnynt.**
RHESYMAU:

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Nid oedd dim hanes o droseddau ac anhrefn cysylltiedig ag alcohol neu niwsans cyhoeddus cysylltiedig ag alcohol ar y safle neu yn gysylltiedig â'r safle.
2. Fodd bynnag, yn natganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor nodwyd bod Stryd y Gwynt, Rhydaman yn fan problemus o ran troseddau ac anhrefn.
3. Nid oedd dim un o'r Awdurdodau Cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r drwydded mewn egwyddor.
4. Roedd yr Heddlu a Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd wedi gofyn am amodau trwydded ychwanegol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.
5. Roedd yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau trwydded ychwanegol hynny.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol ac yn benodol ar y ffaith y cytunwyd ar eu hamodau trwydded priodol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid trwydded, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Ar sail y dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, barn yr Is-bwyllgor oedd ei bod yn briodol caniatáu'r cais gan ei fod wedi'i fodloni bod yr amodau trwydded y

cytunwyd arnynt yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a'u bod yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd, gan gynnwys y rhai a godwyd gan y gwrthwynebydd lleol.

**4. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM**

Bu'r Is-bwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Mrs Mair Craig, ar ran Ystafelloedd Darllen Llansadwrn, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio dwy ffilm fer a oedd yn ddiddosbarth yn flaenorol.

Roedd yr ymgeisydd yn bwriadu arddangos y ddwy ffilm, “Flowers” a “Mencap – Our Social Networks” cyn dangos ffilm dystysgrifedig yn y sinema gymunedol. Roedd y safle'n bwriadu gweithredu'r sinema gymunedol o dan yr esemptiadau safle cymunedol a nodir ym mharagraff 6A o Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Nododd yr Is-bwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Is-bwyllgor i wneud yr argymhellion gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd gyfle i wylio'r ddwy ffilm fer gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 byddai “Flowers” yn cael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i bob oed (U);**
**4.2 byddai “Mencap - Our Social Networks” yn cael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i bob oed (U).**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**